**Julie James AS/MS**
**Y Gweinidog Newid Hinsawdd**
**Minister for Climate Change**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-06-1357
Ein cyf/Our ref JJ/02347/23

Jack Sargeant AS
Cadeirydd – Y Pwyllgor Deisebau
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

12 Medi 2023

Annwyl Jack,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 15 Awst ynglŷn â deiseb gan Gyfeillion y Ddaear yn galw ar Gynllun Gweithredu Microblastigau i Gymru.

Rwy'n rhannu pryderon Cyfeillion y Ddaear Cymru ynghylch microblastigau. Credaf ei bod yn hanfodol bod defnydd cymdeithasol o blastigau, yn enwedig plastig untro, yn cael ei leihau i ddiogelu'r amgylchedd, bioamrywiaeth a iechyd pobl.

Mae microblastigau yn tarddu o amrywiaeth o wahanol ffynonellau, gan gynnwys gweithgareddau diwydiannol a domestig. O ganlyniad, mae gennym nifer o strategaethau sy'n bodoli eisoes sy'n ymrwymedig i fabwysiadu dull penodol sy'n seiliedig ar dystiolaeth o fynd i'r afael â microblastigau. Fodd bynnag, rwy'n cydnabod bod hwn yn faes cymhleth sy'n datblygu o fewn gwyddoniaeth lle rydym yn parhau i wneud ymchwil a, lle bo hynny'n briodol, yn cymryd camau lliniaru.

Mae gan Lywodraeth Cymru hanes hir o weithredu i leihau llif plastig i'r amgylchedd. Rwy'n falch o'r ddeddfwriaeth yr ydym wedi'i chyflwyno i fynd i'r afael â'r broblem. Mae hyn yn cynnwys codi tâl am fagiau siopa untro, gwahardd microbelenni mewn cynhyrchion gofal personol sy'n golchi i ffwrdd ac yn fwyaf diweddar, y gwaharddiadau ar gynhyrchion plastig sbwriel untro a ddaw i rym yn fuan o dan Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Cymru) 2023.

Mae'r Ddeddf yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru gyflwyno gwaharddiadau pellach os oes angen. Gallaf gadarnhau ein bod eisoes yn blaenoriaethu casglu tystiolaeth ar gyfer cynhyrchion problematig eraill sy'n cyfrannu at lygredd microblastig fel weips. Pan gaiff weips eu fflysio, gallant flocio draeniau, cyfrannu at lifogydd ac ychwanegu ffibrau microblastig i'n cyflenwad dŵr. Trwy atal cyflenwadau plastig diangen yn y ffynhonnell, byddwn yn arafu gollyngiadau microblastigau i'n hamgylchedd. Ar hyn o bryd rydym yn gweithio gyda Llywodraeth y DU a'r Llywodraethau Datganoledig ar gamau rheoleiddio posibl yn y maes hwn.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rydym hefyd yn gweithio i gyflwyno cynllun Cyfrifoldeb Cynhyrchydd Estynedig ar gyfer pecynnu, a fydd yn cyflwyno graddfa symudol o ffioedd i gynhyrchwyr sy'n rhoi deunydd pacio ar y farchnad. Bydd hyn yn helpu i leihau faint o ddeunydd pacio sydd a'i wneud yn haws ei ailgylchu. Rydym hefyd yn gweithio ar Gynllun Dychwelyd Ernes ar gyfer cynwysyddion diodydd. Mae'r ddwy fenter hefyd yn anelu at leihau sbwriel pecynnu, gan gynnwys pecynnu wedi'i wneud o blastig.

Mae gennym system casglu gwastraff cartref helaeth lle mae cymaint â phosibl yn cael ei ailgylchu ac rydym yn ymestyn gofynion tebyg i fusnesau yn ystod 2024.

Rydym hefyd wedi gweithio ar draws llywodraethau i ddatblygu Safon Brydeinig i atal colli pelenni plastig i'r amgylchedd yn ystod cyfnodau cludo a chynhyrchu plastig. Rydym wedi cydweithio ar ddatblygu dangosydd microblastigau ar gyfer ein moroedd.

Rwy'n credu bod yr ystod o gamau rydym yn eu cymryd, a'n strategaethau presennol yn dangos bod Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gymryd ymagwedd benodol sy'n seiliedig ar dystiolaeth at y broblem blastig a microblastig.

Yn gywir,



**Julie James AS/MS**
Y Gweinidog Newid Hinsawdd
Minister for Climate Change